



TGCh ar gyfer Aelodau o'r Senedd

2 Tachwedd 2023

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 9 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, rwy'n gofyn am wybodaeth am nifer a chost dyfeisiau electronig, megis ffonau symudol, cyfrifiaduron, gliniaduron a thabledi, nodiaduron a pheiriannau bwrdd gwaith a gyflenwir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd? i aelodau o Senedd Cymru, ac os gwneir unrhyw daliadau, gan gynnwys cysylltiadau rhyngwyd, rhwng 1 Ebrill 2021 ac 1 Medi 2023.

Gweler ein hymateb isod.

Dyma nifer a chost y dyfeisiau electronig a ddarparwyd i Aelodau o'r Senedd rhwng 1 Ebrill 2021 ac 1 Medi 2023.

Eitem	Nifer	Cost fesul dyfais (gan gynnwys TAW)
Gliniaduron Windows	54	£1574.40
Gliniadur Apple	4	£1620.74
Gliniadur Windows i gyd yn un	4	£1620.00
Tabled Apple	5	£887.77
Ffôn Android	7	£583.50
iPhone	27	£662.46
iPhone mini	5	£658.80

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o'r Senedd er galluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol. Nodir penderfyniadau'r Bwrdd yn ei **Benderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau** ("y Penderfyniad"). Mae'r

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Penderfyniad yn darparu i'r Aelodau hawlio am ad-daliad ar gyfer unrhyw gostau rhesymol sy'n ymwneud â rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr (*Pennod 6, y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr*). Bydd yr holl dreuliau y bydd yr Aelodau'n eu hawlio o dan y ddarpariaeth hon yn cael eu cyhoeddi ar y System Cyhoeddi Lwfansau. I ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar ein system lwfansau, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn:

1. Dewiswch y blynyddoedd ariannol yr hoffech edrych arnynt.
2. I ddewis Aelod penodol o'r Senedd, cliciwch ar 'DEWIS AELOD' ac fe welwch restr o gyn Aelodau a'r Aelodau presennol, yna dewiswch enw'r Aelod(au) penodol. Os nad ydych yn dewis Aelod, bydd enwau'r holl Aelodau yn cael eu dangos.
3. I ddewis math penodol o lwfans, dewiswch 'DEWIS MATH O LWFANS', yna 'Pa fath o lwfans' ac yna 'Lwfans Costau Swyddfa' a'r canlynol:
 - i. Offer Swyddfa – Prydles
 - ii. Offer Swyddfa - Prynu – TG
 - iii. Offer Swyddfa - Prynu – Arall

Caiff yr Aelodau eu cefnogi gyda chysylltiadau â'r rhynggrwyd mewn nifer o ffyrdd ar gyfer eu swyddfeydd a'u cartrefi.

Dyma'r costau band eang ar gyfer swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol yr Aelodau rhwng 1 Ebrill 2021 a 1 Medi 2023.

Eitem	Nifer	Cyfanswm y gost - 29 mis (gan gynnwys TAW)
Band eang a ddarparwyd gan TGCh y Comisiwn i swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol yr Aelodau	59	£76,225.92

Yn ogystal, gall Aelodau o'r Senedd hawlio data fel rhan o'u pecyn ffôn symudol, ond ni ellir gwahanu costau'r lwfans data oddi wrth elfennau eraill o'r pecyn ffôn symudol. Dilynwch y cyfarwyddiadau isod i weld y treuliau a hawliwyd gan yr Aelodau ar gyfer y pecynnau ffôn symudol.

Ymhellach, caiff Aelodau hawlio ad-daliad am fand eang o dan y Penderfyniad yn eu heiddo preswyl:

- a) eu prif gartref yn unol â *Phennod 6. Y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr* – Adran 6.6A Band Eang; ac

- b) eiddo yn ardal Caerdydd (fel y'i diffinnir yn y Penderfyniad) lle mae eu prif gartref o fewn ffiniau rhanbarthau etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru yn unol â *Phennod 4 . Gwariant ar Lety Preswyl – Adran 4.4 Aelodau y mae eu prif gartrefi wedi'u lleoli o fewn yr ardal allanol.*

Ar gyfer rhan a) (ad-dalu band eang ym mhrif gartref Aelod), nid oes gennym unrhyw wybodaeth ar gofnod gan na fu unrhyw hawliadau.

Gall yr Aelodau hefyd hawlio costau band eang ar gyfer systemau teledu cylch cyfyng yn eu swyddfeydd etholaethol.

Bydd yr holl dreuliau y bydd yr Aelodau'n eu hawlio o dan y ddarpariaeth hon yn cael eu cyhoeddi ar y **System Cyhoeddi Lwfansau**.

I ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar ein **system lwfansau**, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn:

1. Dewiswch y blynyddoedd ariannol yr hoffech edrych arnynt.
2. I ddewis Aelod penodol o'r Senedd, cliciwch ar 'DEWIS AELOD' ac fe welwch restr o gyn Aelodau a'r Aelodau presennol, yna dewiswch enw'r Aelod(au) penodol. Os nad ydych yn dewis Aelod, bydd enwau'r holl Aelodau yn cael eu dangos.
3. I ddewis y math o draul penodol, ewch i 'DEWIS MATH O LWFANS':
 - i. Ar gyfer pecynnau ffôn symudol a ffôn swyddfa a allai gynnwys lwfansau data, dewiswch y math o lwfans a dewiswch 'Lwfans Costau Swyddfa' a dewiswch 'Ffôn Symudol' a 'Ffôn Swyddfa';
 - ii. Ar gyfer Aelodau'r ardal allanol sy'n hawlio band eang yn eu heiddo preswyl yng Nghaerdydd, dewiswch y math o lwfans a dewiswch 'Lwfans Costau Ychwanegol' a dewiswch 'Band Eang Llety Caerdydd'.
4. Dewiswch 'Chwilio'
5. Cyhoeddir y treuliau a gaiff eu hawlio ar ein system lwfansau **dri mis** yn ddiweddarach a bydd yn dangos yn y flwyddyn ariannol y mae'r gost yn gysylltiedig â hi. Os na allwch ddilyn y cyfarwyddiadau hyn, rhowch wybod i mi.

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael yn rhannol, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Yn gywir,

Buddug Saer
Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF